# EMMANUEL, IVOR LEWIS (1927-2007), canwr ac actor

**Enw:** Ivor Lewis Emmanuel
**Dyddiad geni:** 1927
**Dyddiad marw:** 2007
**Priod:** Malinee Samakarn Emmanuel (née Oppenborn)
**Priod:** Patricia Anne Emmanuel (née Bredin)
**Priod:** Jean Dorothy Emmanuel (née Beazleigh)
**Plentyn:** Emily Margaretta Emmanuel
**Plentyn:** Siân Emmanuel
**Plentyn:** Simon F. Emmanuel
**Rhiant:** Ivy Margaretta Emmanuel (née Lewis)
**Rhiant:** Stephen John Emmanuel
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** canwr ac actor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Trevor Herbert

Ganwyd Ivor Emmanuel yn 3 Prince Street, Port Talbot ar 7 Tachwedd 1927, yn fab i Stephen John Emmanuel (1905-1941), gweithiwr dur, a'i wraig Ivy Margaretta (ganwyd Lewis, 1908-1941). Roedd ganddo chwaer a brawd iau, Mair a John. Pan oedd Ivor yn llai na blwydd oed symudodd y teulu i Bontrhydyfen, y pentref lle ganwyd yr actor Richard Burton, a daeth y ddau'n ffrindiau. Ar 11 Mai 1941 dinistriwyd cartref y teulu Emmanuel gan fom Almaenig, un wedi'i fwriadu yn ôl pob tebyg ar gyfer y safleoedd diwydiannol mawr gerllaw. Lladdwyd y teulu cyfan heblaw Ivor a'i frawd; magwyd y ddau fachgen ar wahân wedyn, Ivor gan ei fodryb Flossie.

Ar ôl iddo adael yr ysgol aeth i weithio yng ngwaith dur Port Talbot ac mewn pwll glo, ond enynnwyd tynfa ynddo at gerddoriaeth a'r llwyfan o oedran gynnar iawn. Honnodd iddo gael ei ysbrydoli gan y recordiadau o'r tenor mawr o'r Eidal, Enrico Caruso, y byddai'n gwrando arnynt drosodd a thro ar gramoffon weindio. Enillodd wobrau mewn mân eisteddfodau, ac ymunodd â Chymdeithas Opera Amatur Port Talbot. Yno y cafodd ei gyflwyno i'r ffurf gerddorol y byddai'n rhagori ynddi.

Cyn cyrraedd ei un ar hugain gadawodd dde Cymru am Lundain, lle bu'n lletya am ychydig gyda Richard Burton, a chafodd glyweliadau am rannau mewn theatr gerdd. Enillodd le gyda Chwmni Opera D'Oyly Carte a threuliodd flwyddyn yn perfformio operettas Gilbert a Sullivan. Ym mis Hydref 1950 teithiodd i Efrog Newydd ar y *Mauretania*, gan ddisgrifio ei hun ar y rhestr deithwyr fel canwr. Mae'n debyg mai nod y daith oedd sicrhau rhannau ar Broadway, ond yn ôl yn y West End yn Llundain y lansiodd ei yrfa yn y theatr gerdd gyda rhannau mawr mewn sioeau Rodgers a Hammerstein megis Oklahoma! a South Pacific yn 1951 a The King and I yn 1953. Buan y daeth yn ffefryn gyda chynulleidfaoedd Llundain diolch i'w bryd golygus, ei bresenoldeb rhwydd ar lwyfan a'i lais bariton uchel telynegol.

Pan gafodd gyfle o'r diwedd ar Broadway, byr a di-nod oedd ei arhosiad yno. Rhoddwyd iddo'r brif ran yn A Time for Singing (1966), addasiad cerddorol annoeth o nofel Richard Llewellyn *How Green was My Valley*. Cafodd perfformiadau Emmanuel eu canmol ac enillodd y sioe beth cymeradwyaeth gan y beirniaid, ond caeodd ar ôl 41 perfformiad yn unig.

Erbyn hyn roedd enw cenedlaethol Emmanuel ym Mhrydain yn ddiogel gan ei fod yn ymddangos yn gyson ar y sioe deledu ddwyieithog wythnosol '*Gwlad y Gân*' (*Land of Song*) a gychwynnodd yn 1958. Cynhyrchid y rhaglen yng Nghaerdydd gan y cwmni teledu annibynnol TWW ac roedd mewn cystadleuaeth uniongyrchol â '*The Black and White Minstrel Show*' ar y BBC ar nos Sul. Darlledid '*Gwlad y Gân*' ar rwydwaith ITV ac roedd yn un o'r sioeau teledu adloniant ysgafn cyntaf o Gymru i ddenu cynulleidfa genedlaethol enfawr; ystyrid mai poblogrwydd personol Ivor Emmanuel oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am ei llwyddiant.

Roedd ei yrfa yn y ffilmiau'n fwy cyfyngedig, ond daeth un perfformiad yn enwog. Cafodd ran fach fel Preifat James Owen yn y ffilm *Zulu* yn 1964. Cyflwynodd y ffilm fersiwn braidd yn addurnedig o'r modd y bu i lai na 150 o filwyr Prydeinig amddiffyn gorsaf genhadon Rorke's Drift yn erbyn pedair mil o Zulus yn Rhyfeloedd De Affrica 1879. Cyd-gynhyrchydd y ffilm oedd ei gyfaill o Gymro Stanley Baker, a hwnnw a chwaraeodd y brif ran hefyd. Mewn golygfa gofiadwy, atebodd Preifat Owen lafarganu'r Zulus trwy arwain y Prydeinwyr lluddedig mewn corawd hynod ddisgybledig o 'Gw  r Harlech'. Roedd yr olygfa'n fwy dyledus i ffuglen nag i hanes go iawn, ond fe gipiodd galonnau cynulleidfaoedd, a gwnaeth Peter Stead y pwynt diddorol yn ei erthygl ar Emmanuel yn yr *Oxford Dictionary of National Biography* fod yr olygfa hon wedi cyfrannu'n sylweddol i'r lle poblogaidd sydd i *Zulu* ym mytholeg ddiwylliannol y Cymry.

Priododd Emmanuel deirgwaith: Jean Dorothy Beazleigh, cyd-gorydd gyda'r D'Oyly Carte, yn 1951; Patricia Anne Bredin yn 1963; ac yn olaf yn 1978 â Malinee Samakarn Oppenborn, a oedd 28 mlynedd yn iau nag ef. Ganwyd dau blentyn o'r briodas gyntaf (Siân a Simon), dim o'r ail ac un (Emily) o'r drydedd.

Erbyn ei drydedd briodas roedd wedi ymddeol i d   ar ben bryn ger tref Malaga yn Sbaen. Chwalwyd ei heddwch yn 1991 pan fethodd y Bank of Credit and Commerce a daeth i'r amlwg ei fod ef yn un o gleientiau mwyaf adnabyddus y banc: roedd bron y cwbl o'i gynilion oes wedi buddsoddi mewn un adnau. Daeth ffrindiau i'r adwy a chodwyd tua hanner ei fuddsoddiad gwreiddiol. Roedd hyn yn ddigon i'w gynnal, er ar delerau cynilach, am weddill ei oes.

Roedd Ivor Emmanuel yn gymwys iawn i fod yn seren y theatr gerdd. Roedd ei lais yn delynegol ac yn llawn cymeriad, ond nid oedd ganddo'r p   er naturiol na'r ehangder mynegiant ar gyfer llwyfan yr opera. Gallai actio'n gredadwy, er braidd yn gyfyngedig, ond doniau gwahanol megis melyster tôn a phresenoldeb ar lwyfan sydd bwysicaf mewn sioeau cerdd ac operetta, ac roedd y doniau hyn ganddo'n helaeth.

Bu Ivor Emmanuel farw o strôc ym Malaga, Sbaen ar 20 Gorffennaf 2007 ac fe'i claddwyd ym mhentref Benelmadena ger ei gartref.

## Awdur

**Trevor Herbert**

## Ffynonellau


Cofnodion bywgraffyddol swyddogol

*Oxford Dictionary of National Biography*

Trevor Herbert a Peter Stead (goln), *Hymns and Arias: Great Welsh Voices* (Cardiff 2001)

*The Times*, 29 Awst 2007


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Ivor Emmanuel

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 7091538

Wikidata: Q6099383


**Dyddiad cyhoeddi:** 2015-10-07



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu